# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 9fed o Fehefin 2022 drwy Zoom yn brydlon am 7.30 o'r gloch.**
Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

**Yn bresennol** drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Tegid Jones, Aled Davies, Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Delyth Parry, Aled Lloyd Evans, Gareth O. Davies, Darren Morley a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Anwen Jones, Thomas Prys Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 12fed o Fai 2022. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mai 2022 (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi o flaen y cyfarfod ar 08.06.22).

4. **Datgan buddiant personol** (roedd y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod). – **Neb.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen waith Adran Priffyrdd yn ystod mis Mehefin 2022.

| Rhif y Ffordd | Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith |
|---|---|---|
| B4354 | Pont yr Ynn, Chwilog | Clytwaith – cwmni Thermal Road Repair |
| | Afonwen – Chwilog | Clytwaith – cwmni Thermal Road Repair |

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned - dim**

7. **Seddau gwag** – trafod fod angen cyfethol aelodau newydd, sef un Cynghorydd yn Ward Llanarmon, a 2 yn Ward Llanystumdwy. Roedd y Clerc wedi gosod posteri yn Llanystumdwy a Chwilog (am bythefnos o'r 14.05.22), ac ar y safle Wé i holi os oes gan rywun ddiddordeb, erbyn 28.05.2022.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.
**Cynigiwyd gofyn wrth Mr Dylan Thomas,o Chwilog a gyfer Ward Llanarmon, a bydd y Clerc yn cysylltu ag o i ofyn yn swyddogol yn dilyn y cyfarfod.**
**Cynigiwyd enwau ar gyfer Llanystumdwy, a bydd y cynghorwyr yn gwneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.**

8. **Angen trafod enwebiadau cynghorwyr ar gyfer y gwahanol bwyllgorau y Cyngor.**
**Pwyllgor Amodau Gwaith** - Angela Williams, Anwen Jones, Thomas Prys Jones, Darren Morley, Gareth Davies
**Pwyllgor Cynllun Busnes** – Anwen Jones, Aled Lloyd Evans, Aled Davies, Sian Angharad Parry, Tegid Jones ac Sion Aled Jones

**Pwyllgor Safle'r Wé** – Anwen Jones, Tegid Jones, Rhys Tudur, Delyth Parry a chynnig gofyn wrth Dylan Thomas

**Pwyllgor Rheolau Sefydlog, Polisiau ac Amodau Gwaith** – Margaret Griffith, Thomas Prys Jones, Angela Williams a Rhys Tudur
**Argymhellwyd y byddai'n syniad cynnal cyfarfod Pwyllgor Safle'r Wé yn ystod y misoedd nesaf.**

9. **Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llýn ac Eifionydd 2023**
**25.06.2022** – gwahoddiad gan Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod i ddau gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i ymuno yn yr Orymdaith Ddinesig ar gyfer yr achlysur yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog am 1:30 y.p. Bydd angen casglu tocyn yn y maes parcio, a gorymdeithio i barc Porthmadog tua 2:00 y.p. (tua 20 munud o waith cerdded). Bydd Cylch cerrig symudol yr Orsedd wedi cael ei gosod yno am 15:00 y.p. fydd yn parhau am tua awr. **Y Cadeirydd Angela Williams, a'r Is Gadeirydd Sian Angharad Parry wedi cytuno i gynrychioli'r Cyngor.**

10. **Penodiad Aelod Cymunedol i'r Pwyllgor safonau, Cyngor Gwynedd**- Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn meddwl ail ofyn wrth Cynghorydd Richard Parry Hughes, Cyngor Llannor i gael ei ail benodi ar y pwyllgor uchod, ond yn gofyn am unrhyw sylwadau yr hoffai cynghorau cymuned a thref ei gwneud gyntaf, erbyn 14.06.2022. **Cefnogi**.

**Materion yn y gymuned**.

11. **Llanystumdwy**

**a) Cwtogi gwasanaeth bws** – derbyniwyd llythyr yn datgan pryder ymysg trigolion pentref Llanystumdwy fod cwtogi sylweddol wedi bod yn y gwasanaeth bws. Y broblem fwyaf yw nad oes gwasanaeth o Bwllheli ar ol 19:48 y.h., ac o Borthmadog nid oes bws ar ol 20:32 y.h. Mae rhai sydd yn gweithio shifftiau hwyr yn dibynnu ar y gwasanaeth bws, ac yn gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith. Byddai'n well cael bws yn gadael Porthmadog a Phwllheli ar ol 21:30 fel ag yr oedd yn y gorffennol. Y Clerc wedi ffonio Adran Trafnidaeth Cyngor Gwynedd, a dywedwyd nad oedd Cwmni Arriva yn cynnig y gwasaneth yma rwan ers cyfnod y clo, oherwydd rhesymau masnachol, ac mai Cwmni Caelloi yn unig oedd yn gwneud rwan. Dywedwyd hefyd fod hyn allan o reolaeth Cyngor Gwynedd oherwydd nad oedd arian ar gael i ymestyn y gwasanaeth.
Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Ms Rhian Williams, Rheolwr Adran Trafnidiaeth, yn datgan,
" Rydym ar hyn o bryd yn adolygu holl rhwydwaith bysiau Gwynedd gyda Trafnidiaeth i Gymru. Bydd y gwaith yma yn cael ei gwblhau dros y misoedd nesaf. Ni allaf ar hyn o bryd gadarnhau os fydd na fysiau yn hwyrach na maent ar hyn o bryd.

Problem arall sydd gan weithredwyr bysiau ydi diffyg gyrwyr a methu recriwtio gyrwyr newydd.

Rydym yn cydymdeimlo gyda teithwyr sydd heb fynediad i fysiau gyda'r nos ond ar hyn o bryd mae'r sefyllfa yn gwneud hi yn amhosib i ni gynyddu gwasanaethau.

Mi fyddwn mewn cysylltiad a chwi unwaith fydd yr adolygiad wedi ei gwblhau".
**Derbyn y wybodaeth am rwan, ond gadw golwg ar y sefyllfa, a holi eto ymhen 6 mis.**

b) **Problemau parcio gyferbyn a Maen y Wern, Llanystumdwy**
Derbyniwyd ymateb gan Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig, yn cynnig rhoi llinnellau melyn ar hyd darn isaf o'r lon:-

“Yn ôl y wybodaeth rydym ni wedi casglu, mae’r ffordd yn 4.5m yn y man mwyaf cul. Mae hyn yn golygu bod bosib i gerbydau, sydd ddim yn ‘Wide Load’ , basio ceir sydd wedi parcio ar y rhan yma o’r ffordd. Er hynny rwyf yn llwyr ddeall nid yw’n hawdd iawn i geir pasio yn enwedig os byddai ddau gar yn dod i gwrdd ei gilydd ar y ffordd.

I geisio mynd i’r afael ar y broblem, rydym wedi rhoi cynllun at ei gilydd.

Gallai’r cynllun gael tipyn o effaith ar drigolion yr ardal, felly rwyf yn awyddus iawn i weld beth yw barn y gymuned cyn symud math yma o gynllun yn ei flaen.

Y cam cyntaf, wrth gwrs, i’w i weld os ydi eich aelodau yn cefnogi’r cynllun ac yn awyddus i’r gwasanaeth hwn i ymgynghori ymhellach gyda’r cyhoedd. Rydym yn gwneud hynny trwy roi poster i fyny ar y safle”.
**Trafodwyd y mater, a gofynwyd i’r Clerc hysbysu Cyngor Gwynedd gan ofyn iddynt roi llinnell felyn o leiaf hyd at Rhif 7, oherwydd y problemau y mae’r ceir yn ei achosi pan fydd tractorau yn ceisio pasio. Nodwyd hefyd fod y Clwb Peldroed sydd yn y pentref yn anfon llythyrau at berchnogion y tai os oeddent yn gwneud unrhyw waith yn y cae, er mwyn iddynt beidio parcio ar y lon.**

c) **Cais i arafu traffig ar yr A479 - ger mynedfa agosaf i Lanystumdwy am Cricieth**.
Cais gan un o drigolion y pentref yn holi pryd bydd y mesuryddion yn cael eu hail osod ger y fynedfa i bentref Llanystumdwy.

Dywedwyd mai yn ystod y tymor twristiaeth roedd y broblem ar ei gwaethaf, ac yn wir ers y Pasg hyd rwan mae’r gor-yrru yn ddrwg iawn eto ac yn peryglu bywyd.
Dywedwyd cyn y Nadolig mai wrth gasglu data yw’r ffordd orau o gyfiawnhau gosod mesurau lleihau cyflymder. Mae angen marciau coch ac arwyddion a therfyn cyflymder is ar y rhan yna o’r ffordd. Mae’r Clerc wedi cysylltu â’r adran berthnasol i holi beth oedd canlyniadau y dangosysddion dros y Gaeaf, ond fel soniwyd ar y pryd yn yr Haf mae eu hangen i weld y broblem ar ei gwaethaf.
Dyma’r ymateb dderbyniwyd gan Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig, Cyngor Gwynedd:-

“Mae’n drwg gen i, mae’r gwasanaeth hwn yn derbyn nifer fawr o ymholiadau parthed i broblemau traffig ar y ffyrdd. Yn ogystal mae’r gwasanaeth yn profi problemau staffio o ganlyniad i’r effeithiau pandemic.

Mae’r arolygon wedi eu cwblhau ond, yn anffodus nid yw’r wybodaeth ar gael i mi fedru ei rhannu gyda chwi ar hyn o bryd.

Mae natur y ffordd, rhwng y gyffordd a Cricieth, yn wahanol i’r gweddill y A497 i Bwllheli. Nid oes gan y rhan yma o’r ffordd ymyl, mae’r ffordd yn gul iawn yn ogystal mae yna rhai adeiladau wedi ei leoli yn agos iawn i’r ffordd. Felly, wrth gwrs, mae’n rhesymol i ofyn; a’i cyfyngiad cenedlaethol o 60mya yw’r cyfyngiad cyflymder mwyaf priodol ar gyfer y rhan yma o’r ffordd.

Ar hyn o bryd, nid yw’r gwasanaeth wedi gwneud unrhyw benderfyniad ar y mater. Mae yna ddau brif reswm dros hynny sef;-

- Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi ystyriaeth i adeiladu ysgol newydd ar y ffordd. Bydd hynny yn cael effaith ar y penderfyniad.
- Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ail adolygu eu canllawiau parthed i newid cyfyngiadau cyflymder ar ein rhwydwaith.

O ran rhaglen yn symud ymlaen, hoffwn gyflwyno’r canlynol i chwi;-

- Mi fydd y gwasanaeth yn rhoi sylw penodol i newid ei gyfyngiadau 30mya i 20mya o fewn ein cymunedau dros y misoedd nesaf, wrth gwrs byddwn yn rhoi sylw penodol i bentref Llanystumdwy. Rydym yn disgwyl i'r newidiadau canlynol dod i rym erbyn Mis Medi 2023
- Yn dilyn hynny, mi fydd y gwasanaeth yn ail adolygu cyfyngiadau cyflymder eraill ar ein rhwydwaith.
- Gydag unrhyw newid ar y A497, byddwn yn ceisio cydlynu unrhyw newid gyda'r datblygiadau sydd ar y gweill ar gyfer yr Ysgol Newydd i Cricieth".

**Gofynwyd i'r Clerc anfon ateb at Cyngor Gwynedd, a anfon copi at Cynghorydd Rhys Tudur yn nodi siom am yr oedi, a bod angen gwneud rhywbeth ar fyrder yma i arafu'r traffig, ac nid disgwyl tan Medi 2023. Holwyd hefyd am y posiblrwydd o gael plismyn i gadw golwg ar y broblem gor-yrru a phasio ei gilydd mewn man peryglus, yn enwedig dros gyfnod yr haf.**

**ch) Mynwent Newydd Llanystumdwy** – problemau parcio ar y palmant ar y ddwy ochr i'r ffordd rhwng Bontfechan a Thyddyn Sianel pan fydd angladdau mawr yno.
Mewn cyfarfod o Bwyllgor y Fynwent, fe benderfynwyd ysgrifennu at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, yn holi am y posiblrwydd o glirio llwybr yr hen ffordd fawr (sef o flaen wal y fynwent ac o dan y rhes dai at Tyddyn Sianel) ac sydd wedi tyfu'n wyllt dros y blynyddoedd, a chreu lle yno i barcio ceir pan fydd angen.
Hefyd, mae'r goedlan rhwng y rhes dai a safle'r hen chwarel wedi cael ei gwerthu'n ddiweddar, ac mae giat wedi cael ei gosod ger y tŷ yn agos i'r fynwent. Maent wedi holi os mai Cyngor Gwynedd yw perchennog y darn yma o dir, i weld os gellir creu lle parcio yno.
**Penderfynwyd cefnogi cais Pwyllgor y Fynwent yn gofyn am gefnogaeth gan y Cyngor Gwynedd i ddatrys y broblem.**

**d) Diffyg arwyddion rhifau tai Cae'r Ffynnon**
Y Clerc wedi anfon llythyr at ADRA yn gofyn am arwyddion rhifau yn y stâd, i gynorthwyo a chyfeirio'r gwasanaethau brys yn enwedig. Mae'r tai wedi cael ei codi ar wahanol adegau. Mae'r 4 rhés ar draws ei gilydd ac nid yw'r rhifau yn dilyn yn daclus. Mae rhés 1 - 12 yn y canol ochr bella', 13 i 22 tu cefn i'r maes parcio, 23 - 30 yn y top ochr bellaf, a 31 - 44 ar hyd y gwaelod ger y lón fawr. **Disgwyl ymateb**.

12. **Rhoslan/Ynys**

**Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – y Clerc wedi derbyn ateb gan yr Adran Gwaith Stryd a Goleuo, Cyngor Gwynedd yn dweud fod y polyn a thrydan wedi cael ei osod rwan ar gyfer gosod y 'diffib.'newydd ger y lloches bws yn Rhoslan. Y Clerc hefyd wedi cysylltu hefo swyddog newydd sydd wedi cael ei gyflogi gan Un Llais Cymru, ac roedd yn dweud y gallwn ni wneud cais i gael 2 diffib newydd am ddim drwy Llywodraeth Cymru, ond fod angen prynu'r 2 gabinet i'w dal nhw. Y Clerc wedi gwneud cais am gael 2 diffibileiddiwr ond heb gael ymateb eto. Wedi derbyn cyngor gan Un Llais Cymru o ddau fath o gabinet, un gan Gwmni Defibsafe am £594.00, a Chwmni WelMedical am £598.00 y ddau yn cynnwys TAW.
**Penderfynwyd archebu 2 gabinet gan gwmni Defibsafe, heb glo arnynt. Hefyd, gofynwyd i'r Clerc holi am brisiau gan 2 drydanwr i osod y ddau deffib.**

13. **Barbio Cloddiau** – cais i roi blaenoriaeth i farbio cloddiau y ffordd o Glanywern Chwilog i Felin Llecheiddior ac o gyffordd Miriau Bach, Rhoslan dros bont Bryn Beddau i gyffordd Llwyn yr Eryr, oherwydd fod sawl digwyddiad yng Nghapel y Beirdd yn y dyfodol agos.

Mae Pererindod o Llanuwchllyn yn dod efo bws ar bnawn Sul , 19eg o Mehefin a wedyn dathlu y 200 ganmlwyddiant ar yr 2il a 3ydd o fis Gorffennaf. Mae'r lonydd yn hynod o gul, a phryder am fws yn teithio ar hyd y lonydd. **Y Clerc wedi derbyn galwad ffon gan Mr Glyn Titus Hughes, Priffyrdd, yn dweud fod contractwyr i fod i ddechrau'r gwaith ddiwedd Mehefin, ei bod yn y broses o drafod prisiau, a'i fod eisioes wedi pasio'r neges ymlaen i weld os gellir gwneud y gwaith yn gynt.**

14. **Chwilog**

a) **Llwybr Chwilog i Afonwen – Ymgynghoriad Teithio Llesol**

Eglurodd y Cynghorydd Rhys Tudur fod Cyngor Gwynedd wedi cael ei beirnadu'n ystod y mis gan Gymdeithas Llesol Cymru am beidio gwneud cais am grant ychwanegol ar ben y gronfa graidd o £500,00.00 a geir o Gronfa Teithio Llesol ar gyfer llwybrau a ffyrdd beic.
Mae wedi derbyn ymateb gan Mr Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau, yn egluro nad ydynt wedi derbyn cadarnhad gan Trafnidiaeth Cymru na Llywodraeth Cymru eto, y byddai arian ar gael i adeiladu'r cynllun. Er hynny, os yw'r cynllun wedi cael ei adnabod ar y mapiau teithio llesol a does dim byd yn ei dal yn ol, maent o'r farn y byddent mewn sefyllfa dda i geisio am arian i adeiladu'r llwybr.
Ar hyn o bryd, dyma'r amserlen sydd ganddynt ar gyfer y cynllun:-

- Penodi Ymgynghoiaeth Gwynedd i ddylunio'r cynllun (mae hynny eisioes wedi digwydd).
- Cyflwyno y mapiau teithio llesol i Lywodraeth Cymru (Medi 2022).
- Derbyn copi o'r dyluniad ar gyfer y llwybr newydd (Medi 2022).
- Cynnal ymgynghoriad o'r cynlluniau (Medi tan Hydref 2022).
- Adnabod cyfleoedd i ariannu'r cynllun (Awst 2022 hyd mid Ionawr 2023).

Mae Cyngor Gwynedd wedi atodi dolen i'r ymgynghoriad ar wefan Cyngor Gwynedd, ac **mae'n bwysig fod pawb yn cwblhau'r holiadur, cyn 08.08.2022, ac mae hyn hefyd yn gyfle i son am ymestyn y llwybr i'r Lón Goed, ac o Chwilog i Llanarmon.**
Eleni mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn £500,00.00 o'r Gronfa Teithio Llesol i ddatblygu 8 cynllun gwahanol.
Ei bwriad yw cyflwyno cais i ariannu rhai o'r 8 cynllun, y flwyddyn ariannol nesaf. **Derbyn a chadw golwg ar y sefyllfa**

b) **Cae Chwarae Chwilog**

Cais gan Cynghorydd Rhys Tudur yn dilyn ymholiad am gael uwchraddio'r cae chwarae. Roedd am holi swyddogion Cyngor Gwynedd, a gweld os oedd yn bosib gwneud cais am arian grant. Y Clerc wedi anfon ebost at y Cynghorwyr i gyd, yn rhoi ychydig o gefndir diweddar y cae chwarae(gweler isod), a'r ffaith mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol amdano ar hyn o bryd.

Mae cofnod ar gofnodion y Cyngor Cymuned **05.12.2019** (eitem 13) yn dweud:-

" **13. Maes chwarae Maes Myrddin, Chwilog** – derbyniwyd llythyr gan Reolwr Prosiect Priffyrdd Cyngor Gwynedd 31.10.19, yn dweud oherwydd sefyllfa y toriadau ariannol, ei bod eisiau i ni ystyried gwahanol opsiynau.
Yn dilyn ein cyfarfod diwethaf, anfonodd y Clerc lythyr at Cyngor Gwynedd, yn dweud fod y Cyngor Cymuned eisiau cadw'r adnodd i'r pentref, gan ofyn tybed a oedd bygythiad i golli'r parc yn gyfangwbl. Eglurwyd hefyd y byddai costau ychwanegol o fod yn gyfrifol am y maes

chwarae, a gofynwyd am fwy o wybodaeth am ddatblygu ffordd o weithio i gael opsiynau/trosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth. **Nid oes ateb wedi cyrraedd eto**."

Yn cofnodion **06.02.2020**(eitem 15) yn dweud:-

**"15. Chwilog**

**Maes chwarae Maes Myrddin, Chwilog** – derbyniwyd llythyr gan Reolwr Prosiect Priffyrdd Cyngor Gwynedd 31.10.19, yn dweud oherwydd sefyllfa y toriadau ariannol, ei bod eisiau i ni ystyried y canlynol:-

i) adnabod os oes gennym ddiddordeb ac yn fodlon ystyried cymryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y maes chwarae uchod.

ii) Os oes gennym unrhyw wybodaeth leol allai awgrymu y buasai eraill fel grwpiau cymunedol cofrestredig yn barod i ystyried cymryd cyfrifoldeb am reoli'r maes chwarae yn y gymuned.

iii) A oes diddordeb gan ein cymuned ddatblygu ffordd o weithio gyda'n gilydd i ddatblygu ffordd ymlaen a dod ynghyd ag opsiynau unai i drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth.

- **Fe anfonodd y Clerc lythyr yn nol at y Rheolwr Prosiect (24.11.19), i ofyn tybed a oedd bygythiad i golli'r parc yn Chwilog. Hefyd, pwysleisiwyd faint o bwysig oedd cadw'r adnodd yn y pentref, oherwydd fod tai newydd yn mynd i gael ei adeiladu yno'n fuan, gyda'r posiblrwydd byddai mwy o blant yn y pentref. Pwysleisiwyd fod costau sylweddol ynghlwm a chynnal y lle, ac fe ofynwyd am fwy o wybodaeth am ddatblygu ffordd o weithio i gael opsiynau neu i drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth fel ag oedd yn pwynt (iii, gweler uchod).**

**Derbyniwyd manylion o gostau cynnal y tir am flwyddyn 2018-19, a'r costau archwilio, ond ni dderbyniwyd atebion i weddill ein cwestiynau. Y Clerc felly wedi ail anfon y llythyr at y Rheolwr Prosiect er mwyn derbyn ymateb. Penderfynu aros tan y derbynir ymateb."**
Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth wedyn ganddynt, felly ni drafodwyd y mater.

Dim ond cae chwarae Llangybi mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol amdano, sef y gost o dorri gwair bob mis a thrwsio offer a chadw'r matiau du yn lan.

Mae cae chwarae ym mhentref Llanystumdwy hefyd, ond mae gan y pentrefwyr bwyllgor ei hunain i ofalu amdano. **Disgwyl i'r Cynghorydd Rhys Tudur gael ateb gan Cyngor Gwynedd**.

15. **Pencaenewydd/Sardis**

a) **Y ffordd o Groesffordd Ty Newydd i Lodge Trallwyn**:

(i) Mae brigau coed drain styfnig yn tyfu i'r ffordd dros dop y wal garreg ger Pont Hendre Garcin, Pencaenewydd ac y maent yn beryg i gerddwyr, beicwyr a cheir sy'n gorfod cadw yn agos at wal y Bont.

(ii) Ar yr ochr chwith ar ben yr allt ar ol pasio mynedfa Glasfryn Fawr am Lodge mae cangen anferth o goeden dderw sydd o bosib wedi hollti ac un hongian uwch ymyl y ffordd. Gallai hon achosi cryn lanast pe digwyddai dorri yn rhydd a disgyn i'r ffordd.
**Derbyniwyd ymateb gan G. Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor yn dweud fod llythyrau wedi cael ei anfon at y tirfeddianwyr parthed pwynt (i), a bod sylw wedi ei roi i pwynt (ii) uchod.**

16. **Llangybi**

**Arosfan Bws Llangybi –** aelod o Glwb Ffermwyr Llangybi wedi ein hysbysu fod aelodau o'r Clwb wedi peintio'r arosfan bws, ar ol iddynt son am wneud hyn cyn y pandemig.
**Y Clerc eisioes wedi diolch iddynt.**

17. **Materion Ariannol**

Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 08.06.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Roedd y Clerc yn trefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod cyn ei talu ar 08.06.2022).

18. **Archwilio mewnol** – y Clerc wedi gorffen casglu'r wybodaeth at ei gilydd, ac wedi danfon y manylion i gael ei archwilio gan Cyngor Gwynedd ar 02.06.2022. Derbyniwyd canlyniad ganddynt 07.06.2022 yn dweud "gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Llanystumdwy ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-2022, yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd". Y Cadeirydd wedi llofnodi'r ffurflen Datganiad Cyfrifyddu ar 08.06.2022. Byddant yn barod i gael ei anfon at yr Archwilwyr allannol rwan.
**Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith, ac mae copi wedi cael ei roi ar wefan y Cyngor.**

19. **Mae'r cyfrif 'Lightsource' wedi cael ei gau rwan**, ac mae'r balans o £3,542.50 wedi cael ei drosglwyddo i'r cyfrif cyfredol ar 20.05.2022. Mae hyn yn arbed talu £5.00 y mis o gostau banc HSBC ar y cyfrif yma. **Derbyn**.

20. **Cais am arian i Fynwent Chwilog** – i lanhau/ail lythrennu bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol flwyddyn nesaf. Nodwyd fod beddi eraill yn yr ardal angen ei tacluso hefyd. Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru byddai cyfrannu at waith fel hyn yn lles i fywyd diwylliannol a hanesyddol y gymuned, felly gellir talu o dan Adran 137 o'r Ddeddf.
Holodd y Clerc Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd hefyd, i weld os oedd yn bosib cael arian o rywle fel y Gronfa Dreftadaeth. Dyweodd fod nifer o grantiau ar gael ac mae'r Clerc wedi pasio'r wybodaeth ymlaen at y Cynghorwyr i gyd. Roedd hefyd yn meddwl byddai'n well creu Is-bwyllgor arwahân.
Cynhaliwyd Is-bwyllgor drwy 'zoom' ar 05.05.2022, rhwng Cyngorydd Aled Davies, Thomas Prys Jones, Rhys Tudur a'r Clerc. Trafodwyd y posiblrwydd o fedru holi am arian grant, i ail lythrennu y cerrig beddi canlynol. Hefyd byddai'n ddelfrydol trefnu i greu taflen addysgol am hanes enwogion yr ardal, ac o bosib cael hysbysfwrdd gwybodaeth. Gellir wedyn ychwanegu'r wybodaeth a lluniau ar wefan y Cyngor Cymuned.

Mynwent Capel Helyg - Bedd Emrys a Cybi
Mynwent Eglwys Llangybi – Bedd Isaac Morris, Dewi Wyn a Gwilym Erch, Caerogo
Mynwent Chwilog – Bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd

**Cynghorydd Rhys Tudur am wneud ymholiadau am arian grant, ac holi am bris i wneud y gwaith ar y cerrig beddau. Y Clerc eisioes wedi derbyn gwybodaeth am hanes y gwahanol enwogion uchod gan Mr Dyfed Evans, Pencaenewydd. Bydd y Clerc yn trefnu i deipio'r wybodaeth er mwyn trefnu i'w gosod mewn pamffled.**

21. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Goleu Stryd, Cyngor Gwynedd (007950B0074439T) | Gosod postyn a chyflenwad trydan diffib, Maes Eifion, Rhoslan | **450.00** | **90.00** | **540.00** | **540.00** |
| Un Llais Cymru | Tâl Aelodaeth 2022-2023 | **331.00** | | **331.00** | **331.00** |

22. Cyflog mis Mai 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mai 2022<br>35 awr y mis x £11.50 = £402.50 | 402.50 =<br>Llai treth £80.50<br>= **£322.00** | **322.00** | **322.00** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mai 2022 | 402.50 x 20% = **£80.50** | **80.50** | **80.50** |
| Costau'r Clerc<br>Mai 2022 | £16.00 | **16.00** | **16.00** |

Penderfynwyd mai ar y nos Iau **07.07.2022** fydd y cyfarfod nesaf, drwy 'zoom' am 7:30 y.h.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**